



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 1 Rhagfyr 2020 am 6.00yh
trwy linc fideo ar y wê**

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 1 December 2020 at 6.00pm
through video link on the web

Presennol/Present—**Y Cynghorwyr/Councillors** Clive Davies (**yn y gadair/in the chair**), John Adams-Lewis, Graham Evans, Catrin Miles, Siân Maehrlein, Steffan Morgan, Debra Griffiths, Elaine Evans, Trystan Phillips, Richard Jones, Yvonne O’Neil, Shan Williams, Morvenna Richards (joined at 6.45) Mr Dave Parkinson (*Tivy-Side*), Mrs Eleri Maskell (**Clerc/Clerk**).

Cyfranogiad y Cyhoedd / Public Participation:

Present: Ray Hasler, Penny Thomas, Sharon Hall, Jane Borley.

Mae’r cyfranogwyr yn dymuno cyfleu eu dicter a’r rhwystredigaeth ynghylch y rheoliadau Parth Diogel sydd wedi’u hailgyflwyno gan achosi i’r Stryd Fawr gau eto. Mae’n achosi difrod helaeth i fusnesau Aberteifi pan oedd masnach eisoes yn dawel iawn. Mae sawl busnes wedi dewis peidio ag agor oherwydd cau’r ffordd a phigyn cyfredol mewn achosion. Teimlwn nad yw’r Cynghorwyr Tref yn gwneud digon i effeithio ar y broses benderfynu yn CSC. Rydyn ni’n teimlo bod busnes lleol yn Aberteifi yn cael ei gosbi am weithredoedd lleiafrif bach, ni yw’r rhai sy’n dioddef heb unrhyw iawndal o gwbl. Hysbysodd y Clerc y parti nad oedd gan y Cyngor Tref unrhyw rôl yn cau’r ffordd, ni chafwyd ymgynhoriad. Cytunodd y Cynghorwyr Sir John Adams-Lewis a Elaine Evans nad oedd angen cau’r ffordd ar amser mor dawel, ond nid oedd ganddynt unrhyw ddylanwad dros y penderfyniad, nad oedd unrhyw broses ymgynghori. Dywedodd y Cynghorydd Sir Catrin Miles ei bod yn bwydo barn y cymuned yn ôl ers i’r Parth Diogel gael ei orfodi yn y ddechrau a’i fod yn cynrychioli’r gymuned ar bob cyfle. Gwnaed mân addasiadau – nid yw’r bysiau’n defnyddio Heol Cei y tro hwn. Mae Rhodfa’r Felin o Pendre i Theatr Mwldan bellach yn draffig dwy ffordd. Anogodd Cyng Catrin Miles bawb i gwblhau’r arolwg ynghylch y Parthau Diogel sydd ar gael ar wefan CSC.

The participants wished to convey their anger and frustration at the Safe Zone regulations that have been reintroduced, causing the High Street to be closed again. It is causing extensive damage to Cardigan businesses when trade was already very quiet. There are several businesses who have chosen not to open due to the road closure and the current spike in cases. We feel that the Town Councillors are not doing enough to impact the decision process at CCC. We feel that local businesses in Cardigan are being punished over the actions of a small minority, we are the ones suffering with no compensation at all. The Clerk informed the party that the Town Council had no involvement in the closure of the road, there was no consultation. County Cllrs John Adams-Lewis and Elaine Evans agreed that there was no need to close the road at such a quiet time, but they had no influence over the decision, there was no consultation process. County Cllr Catrin Miles stated that she had been feeding back their views since the Safe Zone was initially imposed and did represent the community at every opportunity. Minor adjustments have been made – the buses do not use the Quay Street route this time, Rhodfa’r Felin is now two way traffic from Pendre down to Theatre Mwldan. Cllr Miles encouraged all to complete the survey regarding the Safe Zones available on the CCC website.

1. **I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb a cytuno a’r rhesymau a roddwyd.

To receive apologies for absence

To receive, and consider for approval, apologies for absence and reasons given.

Y Cyng/Cllr Wyn Jones.

2. **I dderbyn datganiadau o ddiddordeb**

Atgoffir aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ar unrhyw eitem ar yr Agenda hon ar yr adeg hon neu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor Tref Aberteifi.

To receive declarations of interest

Members are reminded to declare any interest on any item on this Agenda at this point or at any point during the meeting in accordance with Cardigan Town Council’s Code of Conduct.

Y Cyng / Cllr John Adams-Lewis	Materion cynllunio/ Planning matters
--------------------------------	--------------------------------------

3. **Cyflwyniad gan Caroline Wilson**

Cyfle i ddysgu am wasanaeth Bws mini y Ddraig Werdd.

Rydym yn wasanaeth bws trafndiaeth gymunedol - nid er elw, a ddechreuodd yn 2007 gydag un bws yn wreiddiol ac wedi’i leoli yn Bwlchgroes, Sir Benfro. Rydym bellach yn gweithredu pum gwasanaeth yr wythnos yn Aberteifi a’r cyffiniau. Ein cwsmeriaid sylfaen yw’r bobl hynny na allant defnyddio trafndiaeth gyhoeddus am ba bynnag reswm, materion symudedd, oedran, ac ati, maent yn ffonio’r swyddfa ac yn archebu sedd. Rydyn ni’n mynd â theithwyr i’r siopau, apwyntiadau yn y ganolfan iechyd, optegwr, podiatrydd, dosbarthiadau ymarfer corff, neu dim ond allan i gwrdd â ffrindiau, ac ati. Ar hyn o bryd rydyn ni’n gweithio ar hanner capasiti oherwydd y firws. Mae ein niferoedd wedi disbyddu’n ddifrifol ond rydym yn gobeithio dychwelyd i wasanaeth arferol unwaith y bydd rheoliadau’n cael eu codi a hyder pobl yn gwella. Rydym wedi llwyddo i roi ar wasanaethau ychwanegol oherwydd rheoliadau pellhau cymdeithasol, felly mae gennym fysiau ychwanegol yn rhedeg, roeddem yn ffodus i dderbyn cyllid ychwanegol i alluogui hyn. Rydym yn cwmpasu ardal fawr ac mae’n wasanaeth gwych i’w gael yn y gymuned. Rydym hefyd yn rhedeg prosiect o’r enw Green Dragon Wheels2Work Scooter Scheme, may hyn yn darparu’r gwasanaeth i logi sgwter, CBT – hyfforddiant i reidio’r sgwter a chymorth ariannol ar gyfer rhai offer (mae telerau ac amodau’n berthnasol). Mae gennym hefyd gerbyd cludwr cadair olwyn 7 sedd ar gael i’w logi – hunan-yrru fel arfer ond weithiau gallwn ddarparu gyrrwr.

Rydym bob amser yn chwilio am yrwyr gwirfoddol newydd ac mae ein holl gerbydau ar gael i’w llogi yn eu hamser segur.

Presentation by Caroline Wilson

An opportunity to learn about the Green Dragon Minibus service.

We are a not for profit - community transport bus service which started in 2007 with one bus originally and are based in Bwlchgroes, Pembrokeshire. We now operate five services a week in and around Cardigan. Our customer base are those people who cannot access public transport for whatever reason, mobility issues, age, etc. They phone the office and book a seat. We take the passengers to the shops, appointments in the health centre, opticians, podiatrist, exercise classes, and just out to meet friends, etc. At the moment we are working at half capacity due to the virus. Our numbers are seriously depleted but we are hoping for a return to normal service once regulations are lifted and people's confidence improves. We have managed to place on extra

services due to social distancing regulations, so we have extra buses running, we were lucky to receive additional funding to enable this. We cover a large area and it's a great service to have in the community. We also run a project called the Green Dragon Wheels2Work Scooter Scheme, this provides the service to hire a scooter, CBT - training to ride the scooter and financial aid for some equipment (terms and conditions apply). We also have an accessible 7-seater plus wheelchair vehicle available for hire - usually self-drive but sometimes we can provide a driver. We are always on the lookout for new volunteer drivers and all our vehicles are available for hire in their down time.

www.greendragonbus.co.uk

4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth 3 Tachwedd 2020.

Minutes of last meeting

To approve and sign minutes of the meeting held on Tuesday 3 November 2020.

Cynigiwyd gan y Cyng John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng Shan Williams bod cofnodion cyfarfod 3 Tachwedd yn gywir.

Cllr John Adams-Lewis proposed that the 3 November council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Shan Williams.

5. Adroddiad y Clerc

I dderbyn adroddiad gan Glerc y dref yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Tachwedd 2020.

- i. **Mae'r goeden nadolig a roddwyd, yn ei lle, mae'r cymwynaswr yn dymuno rhodd i roi i Glwb Rhwyfo Aberteifi, mae angen dyfarnu ar hyn.
Ar ôl trafodaeth fer, cynigiodd y Cyng John Adams-Lewis rodd o £100. Pawb o blaid – penderfynwyd rhoi rhodd o £100 i Glwb Rhwyfo Aberteifi.**
- ii. **Mae'r Clerc yn dymuno nodi bod y taliad a gymeradwywyd yn Tachwedd i Puretech sound Systems wedi'i ddiwygio i £1868.86 oherwydd bod angen lens ehangach ar gyfer y Gobo. Mae sleid wedi harchebu yn dangos golygfa Nadolig o'r Tri Gŵr Doeth ar gefn camel.**

Clerc's report

To receive a report from the Town Clerk outlining actions taken following the meeting held on 3 November 2020.

- i. The donated Christmas tree is in place, the benefactor wishes a donation to be made to the Cardigan Rowing Club, this needs to be resolved.
After a short discussion Cllr John Adams-Lewis moved a donation of £100 be given. All in favour – resolved that a donation of £100 will be given to Cardigan Rowing Club.
- ii. The Clerk wishes to note that the November payment approved to Puretech Sound Systems was amended to £1868.86 due to needing a wider lens for the Gobo. A slide has been ordered featuring a Christmas scene of the Three Wise Men on camel back.

6. Eitemau i'w cymryd mewn sesiwn breifat

I benderfynu pa eitemau, os o gwbl, o'r Agenda y dylid eu cymryd gyda'r cyhoedd wedi'u gwahrad.

Dim eitemau i'w cymryd mewn sesiwn breifat.

Items to be taken in private session

To determine which items, if any, of the Agenda should be taken with the public excluded.

No items to be taken in private session.

7. Cynllunio

Ystyried ceisiadau cynllunio a derbynir a dadansoddi sylwadau priodol.

Planning

To consider planning applications received and resolve to submit appropriate comments.

Rhif y Cais / App. No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Sylwadau / Comments
A200893 <i>Dychwelwyd sylwadau i gynllunio 23 Tachwedd 2020.</i> Observations returned to planning 23 November 2020.	Ty'r Morfa, Aberteifi, SA43 2LD	<i>Adeilad amaethyddol newydd yn cadw'r sylfaen goncrit bresennol a'r strwythur dur a godwyd o'r blaen, rhediad cŵn a garej newydd, cadw'r strwythur gabion presennol, dymchwel y stabl bresennol.</i> New agricultural building retaining existing concrete base and steel structure previously erected, new dog run and garage, retention of existing gabion retaining structure, demolition of existing stable.	<i>Nid yw'r cyngor yn cefnogi'r cais ôl-weithredol hwn. Mae'r gwaith adeiladu presennol yn hollol groes i'w gymeriad gyda'r tai eraill ar hyd y darn hwnnw o afon Teifi, sydd yn Adrdal Cadwraeth Arbennig Dynodedig ac yn agos at Warchodfa Natur Cors Teifi. Mae yna broblemau hefyd gyda'r ffordd gyfagos. Rydym yn argymhell y dylid dileu'r adeiladwaith.</i> The council does not support this retrospective application. The existing construction is completely out of character with the other houses along that stretch of the Teifi river, which is a Designated Special Area of Conservation and in close proximity to the Teifi Marshes Nature Reserve. There are also issues with the adjacent road. We recommend the building be removed.
A200967	Barclays Bank, 32 Stryd Fawr, Aberteifi, SA43 1HH	<i>Gosod pigau ar wal y banc i atal adar / Installation of bird spikes deterrent to front elevation of bank.</i>	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais hwn.</i> The Council supports this application.

8. Eitemau i'w hystyried a'u dadansoddi / Items for consideration and resolution

a) Biliau i'w talu / Bills to be paid

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhif y Siec Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
1/12/20	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Rhagfyr/December).</i> <i>Band Lydan Rhagfyr / Broadband (December)</i>	A9 A20	D/D 4982	£250.00 (0.00) £20.00 (0.00)
2/12/20	<i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Tachwedd/November)</i>	A5	4983	£1119.73(0.00)
2/12/20	<i>Bachan Deche / Handyperson (Tachwedd/November)</i>	A19	4984	£520.80(86.60)
19/9/20	<i>BT Ffioedd 2 cwarter / Fees for 2 quarters</i>	A20	4985	£255.58(29.27)
11/11/20	<i>D E Owen and Son – Torri porfa / Grass cutting</i>	B3	4986	£1876.62(312.77)
11/11/20	<i>TJB Electricals Ltd</i>	B1	4987	£8159.10(1359.85)
19/10/20	<i>Zoom – Webinar fee, one month</i>	D14	4992	£38.40 (6.40)
04/11/20	<i>SLCC – Agendas and Minutes training</i>	A24	4988	£72.00(12.00)
13/11/20	<i>Gwasanaeth cyfieithu ar y pryd / Simultaneous translating service</i>	A18	4989	£67.50 (0.00)
2/12/20	<i>Ail randal Lwfans y Maer / Second Installment Mayor's Allowance</i>	A1	4990	£1,600.00

30/11/20	The Computer Bay – Desktop Web Cam 1080	A17	4991	£36.99(0.00)
----------	---	-----	------	--------------

Cynigiodd y Cyngor bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu;

The Council proposed that the listed bills be paid.

Derbyniadau/Receipts:

9/10/2020	Lloyds Bank: <i>Llog</i> / Interest	£0.55
30/10/20	<i>3ydd taliad Praesept</i> / 3 rd Precept payment	£27,999.04

b) Gosod dyddiad i gyfarfod y gyllideb / Set date for budget meeting.

Gosodwyd dyddiad y cyfarfod cyllideb nesaf am 6.00yh nos Fwrth 12 Ionawr 2021.

The date of the next budget meeting was set for 6.00pm Tuesday 12 January 2021.

c) Gohebiaeth / Correspondence

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
221	Rhodri Llwyd – <i>Swyddog arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol CSC / Corporate Lead Officer: Highways and Environmental Services CCC – Ymateb i lythyr o'r Cyngor ynglyn a safle'r hen ganolfan iechyd / Response to a letter sent by the Council regarding the old Health Centre site.</i>	<i>Mae'r llythyr a anofnwyd gan y Cyngor wedi'i anfon ymlaen at y Gwasanaethau Datblygu Economadidd, rydym yn aros am eu hymateb / The letter sent by the Council has been forwarded to Economic Development Services, we await their response.</i>
222	Bridget Hiser: <i>"We Say No to Cardigan Traffic Diversion" Group</i>	<i>Ymateb i rai pwyntiau a codwyd yng nghyfarfod y cyngor y mis diwethaf / Response to some points raised in the Council meeting last month.</i>
223	Caroline Blackburn - <i>Llythyr yr wrthblaid i'r ymgyrch "20 yn ddigon" / Opposition letter to the 20 is plenty campaign</i>	<i>Mae y Cyng Catrin Miles wedi anfon ymateb priodol ar 13 Tachwedd 2020 / Cllr Catrin Miles has sent an appropriate response on 13 November 2020.</i>
224	Julian Beynon-Lewis – <i>Prif Weithredwr/Chief Executive Menter Aberteifi: Pedestreiddio / Pedestrianisation.</i>	<i>Sylwadau a dolen i'r arolwg a gynhaliwyd gan fasnachwyr Aberteifi / Comments and a link to the survey conducted by Cardigan Traders.</i>
225	Sophie Rees – <i>Swyddog Cyfathrebu, Ymgysylltu ac Ymgynghori Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru / Communication, Engagement and Consultation Officer, Mid and West Wales fire and Rescue Service.</i>	<i>Cais am adborth ar ei Cynllun Corfforaethol Drafft a gwahoddiad i weminar gyda'r Dirprwy Brif Swyddog Tân Request for feedback on their draft corporate plan and an invitation to a webinar with the Deputy Chief Fire Officer.</i>
226	Sarah Bowen – <i>Cydlynnydd Cydlyniant Cymunedol CSC / Community Cohesion Officer CCC.</i>	<i>Gwybodaeth am y Rhaglen Ariannu Cydlyniant Cymunedol / Information on the Community Cohesion Funding Programme.</i>
227	Alan Haird – <i>CSC / CCC.</i>	<i>Gwyl Deall Lleoedd Cymru / Understanding Welsh Places Festival.</i>
228	Sophie Rees – <i>Swyddog Cyfathrebu, Ymgysylltu ac Ymgynghori Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru / Communication, Engagement and Consultation Officer, Mid and West Wales fire and Rescue Service.</i>	<i>Gwahoddiad i weminar gyda'r Dirprwy Brif Swyddog Tân Roger Thomas / Invitation to a webinar with the Deputy Chief Fire Officer Roger Thomas.</i>
229	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC/WLGA coronavirus update.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 09/11/2020. For your information. Forwarded to all councillors on 09/11/2020.</i>
230	Leanda Wynn: <i>Cylchlythyr Mis Hydref CIC Hywel Dda. Hywel Dda CHC's October's Newsletter.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 10/11/2020.</i>

		For your information. Forwarded to all councillors on 10/11/2020.
231	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC/WLGA</i> coronavirus update.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 10/11/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 10/11/2020.
232	Ann Stoke – <i>Prosiect plac glas / Blue Plaque project.</i>	<i>Gwrthodwyd am grant loteri, bydd placiau yn cael eu gosod mewn 4 safle / Rejected for a lottery grant, plaques will be installed at 4 sites.</i>
233	Katharine Cannan – <i>Partneriaethau Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru / Local Government partnerships, Welsh Government.</i>	<i>Dogfen Ymgynghori: Canllawiau statudol drafft – Perfformiad a llywodraethiant prif gyngorau / Consultation Document: Draft statutory guidance – Performance and governance of principal councils.</i>
234	Sarah Evans, <i>Cynorthwydd Clerigol i Ben Lake / Clerical Assistant for Ben Lake – Bwrdd iechyd Hywel Dda / Hywel Dda Health Board.</i>	<i>Gwahoddiad i arolwg ymgysylltu i baratoi Asesiad Anghenion Fferyllol / Invitation to a survey to prepare a Pharmaceutical Needs Assessment.</i>
235	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Diweddariad llifogydd a TAN 15 / Flooding and TAN 15 update.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 13/11/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 13/11/2020.
236	Sarah Evans, <i>Cynorthwydd Clerigol i Ben Lake / Clerical Assistant for Ben Lake – Caryl Angharad Jones, Swyddog Cyfathrebu a Marchnata, Cynnal y Cardi / Communications and Marketing Officer Cynnal y Cardi</i>	<i>Cyfle ceisio am gyllid refeniw i gefnogi datblygiad prosiectau cefnogi cyfleoedd i bobl ifanc / An invitation to seek revenue funding to support project development providing opportunities for young people.</i>
237	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref Cynllun Datblygu Strategol Cymru 2021 a Rheoliadau i sefydlu Cyd Bwyllgorau Corfforaethol / Town and Country planning Strategic Development Plan Wales Regs 2021 and Regs to establish Corporate joint Committees.</i>	<i>Gofyn am ddiddordeb i ymuno a seminar / Request for interest in attending a seminar.</i>
238	<i>Adran Ystadau ar gyfer/Estates Section for Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio / Corporate Lead Officer: Economy and Regeneration.</i>	<i>Eglurhad bod y ffens rhwng caeau chwarae Brennin Siôr V a Greenland Meadows yn eiddo i'r Cyngor Tref / Explanation that the fence between King George V Playing Field and Greenland Meadows is owned by the Town Council.</i>
239	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, Ymateb i'r argyfwng sy'n wynebu natur yng Nghymru / Wales Biodiversity Conference, Responding to the crisis for nature in Wales.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 17/11/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 17/11/2020.
240	Cathryn Morgan <i>Cydlynnydd Teuluoedd yn gyntaf a Ffoaduriaid CSC / Families First and Refugees Coordinator CCC.</i>	<i>Cyllid chwarae i rhwydwaith chwarae Ceredigion, cais am gyllid wedi eu wneud / Play Funding for Ceredigion play network, an application for funding has been made.</i>
241	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Ministerial Advisory Forum on Ageing – Arolwg ynghylch cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru / Survey regarding strengthening and advancing equality and human rights in Wales.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 17/11/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 17/11/2020.
242	Jane Roche – <i>Yw'r Cyngor tref yn ceisio am grant cyfle chwarae? Is the town council applying for a play opportunity grant?</i>	<i>Ymatebodd Y Cyng Clive Davies a Catrin Miles i'r e-byst. Cllrs Clive Davies and Catrin Miles responded to emails.</i>
243	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – DC Gareth Jordan Heddlu Dyfed Powys Police – Sgam post brenhinol / Royal mail scam.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 17/11/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 17/11/2020.

244	Sarah Bowen – <i>Cydlynnydd Cydlyniant Cymunedol / Community Cohesion Officer – Sesiynau hyfforddi cynllun setliad yr UE / EU Settlement Scheme Training Sessions.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 18/11/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 18/11/2020.
245	Cathryn Morgan <i>Cydlynnydd Teuluoedd yn gyntaf a Ffoaduriaid CSC / Families First and Refugees Coordinator CCC: E-dau e-bost ynglyn a rhodd chwarae/ E-mail thread regarding play grant.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 18/11/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 18/11/2020.
246	Jennifer Nunn <i>Swyddog Cymorth Prosiect ar ran / Project Support Officer on behalf of Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio / Corporate Lead Officer: Economy and Regeneration.</i>	<i>Arolwg parthau diogel canol trefi / Town centre safe zones survey.</i>
247	Cathryn Morgan <i>Cydlynnydd Teuluoedd yn gyntaf a Ffoaduriaid CSC / Families First and Refugees Coordinator CCC.</i>	<i>Ysgolion yn cau yn Aberteifi - rhestr grantiau a chymorth ariannol i unigiolion / Schools closing in Cardigan – list of grants providing financial help for individuals</i>
248	<i>Datganiad i'r Wasg CSC / Press Release CCC: CSC yn annog pobl i ddilyn y canllawiau i gadw'n gilydd yn ddiogel / CCC urges people to follow the guidelines to keep each other safe.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 23/11/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 23/11/2020.
249	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC/WLGA coronavirus update.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 24/11/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 24/11/2020.
250	Cathryn Morgan <i>Cydlynnydd Teuluoedd yn gyntaf a Ffoaduriaid CSC / Families First and Refugees Coordinator CCC.</i>	<i>Cyngor i ystyried yn gryf cau ein cyfleusteracu manau chwarae / Advice to strongly consider closing our play area facilities.</i>
251	Mr Lyn Cadwallader, <i>Prif Weithredwr, Un Llais Cymru /Chief Executive, One Voice Wales: Economi Gylchol Cymru / Circular Economy Fund.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 25/11/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 25/11/2020.
252	Raymond Hasler <i>Go Mango Wholefoods: Gwrthwynebiad i gau ffyrdd / Opposition to road closure.</i>	<i>Blaenyrwyd i CSC / Forwarded to CCC 25/11/2020.</i>
253	Elvira Oddy: <i>Gwrthwynebiad i gau ffyrdd / Opposition to road closure.</i>	<i>Blaenyrwyd i CSC / Forwarded to CCC 25/11/2020.</i>
254	<i>Adain Cau ffyrdd CSC / Road Closures Section CCC: Cyfyngiadau traffig dros dro / Temporary traffic restrictions.</i>	<i>Hysbysiad bod mesurau diogelwch parhaus yn cael eu hailgyflwyno / Notificiaion that continuing safety measures are being reinstated.</i>
255	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Canlyniad arolwg aelodau a gynhaliwyd gan Un Llais Cymru / Member survey report undertaken by One Voice Wales.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 27/11/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 27/11/2020.
256	Andrew Ginn <i>Rheolwr Gweithrediadau ar ran / Operations Manager on behalf of Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio / Corporate Lead Officer: Economy and Regeneration: Cyfleusterau cyhoeddus / Public Conveniences.</i>	<i>Y Cyngor i ddatgan buddiant i gael perchnogaeth o'r toiledau yn Lôn y Siawnsri. A fyddai opsiwn i ddefnyddio rhan o'r safle fel allfa fasnachol i helpu i ariannu costau rhedeg cyfleustra cyhoeddus. Gofyn i'r Cyngor Sir am beidio â datgysylltu'r cyflenwad dŵr i doiledau yn Feidr Fair / The Council to declare an interest to obtain ownership of the toilets in Chancery Lane. Would there be an option to use a section of the site as a commercial outlet to help fund running costs of a public convenience. To request the water supply to the toilets in Feidr Fair not to be disconnected.</i>
257	Lauren Morrison – <i>Rheolwraig Rhaglen Diwygio Etholiadol, Llywodraeth Cymru / Electoral Reform Programme Manager, Welsh Government.</i>	<i>Newyddlen Etholiadol LIC, Tachwedd. WG Electoral Newsletter, November.</i>

258	Julian Beynon-Lewis, Menter Aberteifi.	<i>Trawsnewid Trefi Covid-19 grant addasu – cais llwyddianus / Transforming towns Covid-19 Adaptation Grant – Successful application.</i>
259	Marianne de Vries - <i>Peiriannydd Cynorthwyol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol CSC / Assistant Engineer Highways and Environmental Services CCC.</i>	<i>Bydd modd i draffig deithio ddwy ffordd ar hyd Rhodfa'r Felin rhwng Theatr Mwldan a Phendre / Ammendment to safe zone restrictions, Rhodfa'r Felin from the Mwldan Theatre to Pendre will be two-way traffic.</i>
260	Simon McKenna – <i>Sylwadau ar Gais Cynllunio Tŷ Morfa ar ran ei fam sy'n cymydog / Observations on the Tŷ Morfa Planning Application on behalf of his mother Mrs Gillian McKenna a neighbour.</i>	<i>Clerc i anfon y sylwadau a gyflwynwyd gan y Cyngor i Mr McKenna / Clerk to forward the submitted council observations to Mr McKenna.</i>
261	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC/WLGA coronavirus update.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 01/12/2020. For your information. Forwarded to all councillors on 01/12/2020.</i>
262	<i>Cymdeithas Gofal / The Care Society: Cais am gymorth ariannol dros yr ŵyl Request for financial aid over the festive period.</i>	<i>Nid yw'r Cyngor yn ystyried ceisiadau am gymorth ariannol y tu allan i'r calendr rhoddion. Clerc i anfon dyddiadau'r Is-bwyllgor i'r Gymdeithas Ofal/ Council does not consider financial aid requests outside the grant calendar. Clerk to forward the Sub-committee dates to the Care Society.</i>
263	Radio Bronglais: <i>Cais am gymorth ariannol. Application for financial support</i>	<i>I'w trafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Mawrth. To be discussed at the March Grants Sub-committee.</i>
264	<i>Cymdeithas Rien i ac Athrawon Ysgol Gynradd Gymunedol Penparc :</i> <i>Cais am gymorth ariannol. Application for financial support</i>	<i>I'w trafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Mawrth. To be discussed at the March Grants Sub-committee.</i>

d) Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Elusen Cae Chwarae Brennin Siôr V 30 Tachwedd 2020.

Minutes for the King George V Playing Field Charity Advisory Committee Meeting 30 November 2020.

4 Eitem i'w hystyried / 4 items for consideration:

- i. **Cais gan Ysgol Uwchradd Aberteifi i ddefnyddio'r cae yn ystod oriau ysgol (Billy Roche). Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau i'r ysgol ddefnyddio'r cae. Mae'r ddau glwb yn hapus i'r disgyblion ddefnyddio'r tir os rhoddir ystyriaeth ddyledus i laswellt y ddau gae. Rhoddwyd caniatâd y Pwyllgor Cyngori. (11/20/3 a)**
Penderfynwyd y Cyngor i gytuno â'r Pwyllgor Cyngori. Y Clerc i ysgrifennu llythyr yn cadarnhau y gallai disgyblion defnyddio'r meysydd.
 Request from Ysgol Uwchradd Aberteifi to use the field during school hours (Billy Roche). There were no objections to the school using the field, both clubs happy for the pupils to use the facilities if due consideration is given to turf of both fields. Permission was granted by the Advisory Committee. (11/20/3 a)
 The council resolved to agree with the Advisory Committee. The Clerk to write a letter to Ysgol Uwchradd Aberteifi confirming that pupils could use the fields.
- ii. **Cais i estyn y ffens yr holl fordd i lawr i'r cornel Gwbert Road a Park Avenue (Wil Bowen). Codwyd pryderon ynghylch mynediad i gae Brennin Siôr V os yw'r ffens yn cael ei hymestyn. Gwnaed cais i'r ysgrifennydd gael y cod ar gyfer y clo clap ar y giât gan faes parcio'r Clwb Rygbi i sicrhau bod mynediad i gae Brennin Siôr. Gofynnir i'r cyngor Tref ariannu'r gwaith o godi ffens newydd yn yr ardal hon. Yr ysgrifennydd i ofyn i CSC am ganiatâd i osod bolard plygu wrth giât ym mhen Greenland Meadows o'r cae rygbi. Cynigiodd Ceri Adams-Lewis y**

dylid ymestyn y fens gyferbyn â Thŷ Parc ac eiliwyd hyn gan William Bowen. Cariwyd y bleidlais. (11/20/3 c)

Penderfynwyd y Cyngor i gytuno â'r Pwyllgor Cyngori, y Clerc i roi'r ffens fel eitem ar Agenda cyfarfod y gyllideb.

Request to extend the fence all the way down to the corner of Gwbert Road and Park Avenue (Wil Bowen).

Concerns were raised regarding access to the King George V field if the fence is extended. A request was made for the secretary to obtain the code for the padlock to the gate by the Rugby Club carpark to make sure there is viable access to King George Field. The Town Council would be asked to fund the erection of a new fence in this area. The secretary to seek permission for folding bollards to be placed at the gate at the Greenland Meadows end of the rugby club from CCC. Ceri Adams-Lewis proposed that the fence be extended opposite Ty Parc and this was seconded by William Bowen. The vote was carried. (11/20/3 c)

The council resolved to agree with the advisory committee, the Clerk to place the fence as an item on the budget meeting Agenda.

iii. **Cyflwr y ffens yn rhedeg ar hyd pen y cae rygbi gyferbyn â Greenland Meadows (Pwyllgor Clwb Rygbi).**

Mae'r ffens yn hen, wedi treulio ac yn beryglus. Mae rhan o'r ffens eisoes wedi'i gosod ac mae angen gwneud gwaith pellach. Cytunwyd i wneud cais i'r cyngor Tref ariannu ailosod y ffens. Cariwyd y bleidlais. (11/20/3 e)

Penderfynwyd y Cyngor i gytuno â'r Pwyllgor Cyngori, y Clerc i roi'r ffens fel eitem ar Agenda cyfarfod y gyllideb.

Condition of the fence running along the top of the rugby field opposite Greenland Meadows (Rugby Club Committee).

The fence is old, worn and dangerous. A section of the fence has already been replaced, and further work needs to be done. It was agreed to make a request to the Town Council to fund replacing the fence. The vote was carried. (11/20/3 e)

The council resolved to agree with the Advisory Committee, the Clerk to place the fence as an item on the budget meeting Agenda.

iv. **Apel am flwyddyn ddi-rent oherwydd colli enillion achos cyfyngiadau y Coronafirws (Malgwyn Evans a Hefin Harries).**

Pleidleswyd i gefnogi'r cais am flwyddyn ddi-rent i'r Clwb Rygbi a Bowlio, gofynnwyd i'r ysgrifennydd gyflwyno hyn i'r Cyngor Tref. (11/20/3 g)

Gofynnodd y Cyngor i'r Clerc ofyn am fanylion unrhyw grantiau a dderbyniwyd oherwydd colli incwm a chyfrifon ariannol diweddar.

Appeal for a rent-free year in lieu of loss of earnings due to Coronavirus restrictions for the Bowling Club and Rugby Club (Malgwyn Evans and Hefin Harries).

It was voted to support the request for a rent-free year for the Rugby and Bowling Club, the secretary was asked to present this to the Town Council. (11/20/3 g)

The Council requested for the Clerk to ask for details of any grants received due to loss of income and recent financial accounts.

9. **Eitemau er gwybodaeth yn unig**

a) Adroddiad y Maer

- i. **Gohebiaeth barhaus gyda swyddogion Pwll Nofio Aberteifi;**
- ii. **Cae Chwarae Brenin Siôr Ved, man chwarae plant, grant a ddyfarnwyd, cyllid ychwanegol posibl ar gael;**
- iii. **Cynllunio'r goleuadau Nadolig gyda'r Cyng Richard Jones, Clerc y Tref, trydanwr a swyddogion y Castell;**
- iv. **Cyfarfodydd parhaus gyda rhanddeiliaid yn y dref ynghylch "Wales and West Development". Anfonwyd gohebiaeth at WWD i gael yr wybodaeth ddiweddaraf;**

- v. Cyfathrebu yn ddyddiol â phrotestwyr yn erbyn mesurau COVID-19 canol tref, gan rannu gwybodaeth rhwng swyddogion Ceredigion ac aelodau lleol;
- vi. Mynychu Cronfa Lles Tref Aberteifi gyda rhanddeiliaid eraill y dref;
- vii. Trosglwyddwyd gwybodaeth i'r Cyngorwyr Sir am bryderon ac ymholiadau a godwyd gan ddinasyddion Aberteifi;
- viii. Agor siop newydd yn Pendre – Burns Pet Nutrition yn Pwllhai;
- ix. Agor busnes salon a thriniaeth newydd, y Salon Fach, yn Arcêd Aberteifi;
- x. Agor stiwdio ddylunio newydd, Ddylunio Mana, yn Pwllhai;
- xi. Siaradwr yn seminar Tref Glyfar ar gyfer Sir Gaerfyrddin a Gwynedd gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac elusen Access Wales, dechrau rhannu'r pecyn Access Wales i fasnachwyr yn Aberteifi;
- xii. Cyfarfod ag Age Cymru, Community Connectors, Porth Cymorth a gwirfoddolwyr Covid-19 i ddatblygu prosiect i ddarparu prydau cinio Nadolig "Meals on Wheels" i aelodau bregus y gymuned. Edrych am arian a gwirfoddolwyr. Yn aros am adborth gan Western Power, gafwyd cynigion o gymorth gan 2 fusnes lleol a 15 gwirfoddolwyr hyd yn hyn;
- xiii. Cefnogi Hywel Dda a'r Cyngor Sir gyda chysylltiad technegol ar gyfer creu'r ganolfan profi gyrru trwyddo;
- xiv. Galwyd cyfarfod brys yr wythnos diwethaf ynghylch achos cymunedol o Cronafirws yn Aberteifi a De Ceredigion;

Items for information only

a) Mayors' Report

- i. Continual correspondence with Cardigan Swimming Pool;
- ii. King George V play area, grant awarded, possible additional funding available;
- iii. Plan the Christmas lighting scheme with Cllr Richard Jones, Town Clerk, electrician and Castle;
- iv. Ongoing meeting with stakeholders in town regarding wales and west development and correspondence sent to WWH for an update;
- v. Daily correspondence with protestors against town centre COVID measures, providing information as I receive from Ceredigion and local members and vice versa;
- vi. Attended Cardigan Town well-being fund steering group with other town stakeholders, grants being presented on line on the 9th december;
- vii. Sign posting to relative County Councillors concerns and queries raised by Cardigan citizens;
- viii. Opening of new shop - Burns Pet Nutrition in Pwllhai;
- ix. Opening new salon and treatment business, Salon Fach in Cardigan Arcade;
- x. Opening new design studio, Mana Design in Pwllhai;
- xi. Speaker at Smart Town seminar for Carmarthenshire and Gwynedd with Police and Crime Commissioner and Access Wales charity, start to roll out the Access Wales packs for traders in Cardigan;
- xii. Meeting with Age Cymru, Community Connectors, Porth Cymorth, Covid volunteers to develop project to provide Christmas dinner Meals of Wheels for vulnerable community members of Cardigan Town, 60 people on the list. Seeking funds and volunteers. Awaiting feedback from Western Power, offers of help received from 2 local businesses and 28 volunteers to date. A grant of £600 has been received from Western Power;
- xiii. Supported Hywel Dda and the County Council with technical link for creation of the drive thru testing centre;
- xiv. An emergency meeting was called last week regards a community outbreak of Coronavirus in Cardigan and South Ceredigion, the numbers did increase dramatically.

b) **Adroddiadau'r Cyngorwyr Sir**

Y Cyng Catrin Miles Ward Teifi

- i. **COVID-19/ PARTHAU DIOGEL:** Pan ddaeth y “Fire-break” cenedlaethol i ben, roedd rhai yn ein plith yn meddwl mai dyna ddiwedd ar y feirws ac wedi torri rheolau Covid yn lleol. Prin mis yn ol, dyma oedd fy adroddiad: *“Mae achosion Covid-19 o dan reolaeth yn lleol er bod ffigyrau wedi cynyddu mewn awdurdodau cyfagos, ac angen dirfawr cadw at y rheolau.”*
Ers hynny, mae cynnydd brawychus yn y nifer o achosion Covid a’r effaith wedi lledaenu yn ein cymuned: Bu’n rhaid cau’r Llyfrgell, Meithrinfeydd, Coleg Ceredigion, Dechrau’n Deg, Jig-So, 7 ysgol yn ardal Aberteifi dros gyfnod o bythefnos, a 6 yng Nghogledd Sir Benfro dros gyfnod byr; Siopau a busnesau wedi gorfod cau oherwydd bod staff wedi profi’n positif a gwasanaeth brys y Brigad Dan o dan straen.
Bu’n rhaid i Gyngor Sir Ceredigion wneud penderfyniad brys i fynd nol i system y PARTHAU DIOGEL yn Aberteifi. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi llongyfarch CSC am ddelio gyda’r argyfwng mewn ffordd mor effeithiol a chyflym. Mesur diogelwch yw cau’r stryd fawr a Pendre rhwng 11yb a 4:30yp dydd Llun i Sadwrn a chyn gynted a bydd nifer yr achosion yn cwmpo, bydd modd ail-agor. Dwi wedi llwyddo cael CSC i ail-agor y rhiw rhwng Pendre a’r Mwldan i fod yn ddwy-ffordd - fel bod bysys y dre’n gallu troi i’r chwith yn hytrach na defnyddio’r ffordd osgoi lawr Stryd y Cei. I’r bobl sy’n ddig gyda’r Cyngor Sir: cyfeiriwch eich dicter at y rhai wnaeth dorri’r rheolau! Mae Ymgynghoriad CSC yn dal ar agor hyd at y 21ain o Ragfyr 2020 a’r Holiadur ar wefan y Cyngor ond mae’n bosib ymateb hefyd dros y ffon: 01545 570881.
- ii. **YSGOLION:** Mae 7 ysgol ardal Aberteifi ar gau am bythefnos, hyd at y 7 Rhagfyr oherwydd y feirws. Erbyn hyn, rydym yn gwybod na fydd arholiadau TGAU, AS a lefel A yn 2021 a threfniadau ar y gweill i gefnogi pob ysgol i roi system amgen mewn lle.
- iii. **PARCIO:** CSC wedi cyflwyno tal am barcio o heddi ymlaen, gyda pheiriannau heb arian (cashless) ond teimlwyd ei bod hi’n anheg cyflwyno hyn yn Aberteifi tra bod Parthau Diogel eto, oherwydd Covid. Bydd costau parcio yn ail-ddechrau yn Llambed, Aberaeron, Cei ag Aberystwyth ond dim yma, hyd nes bod y stryd fawr ar agor yn barhaol.
- iv. **A487:** Bu damwain difrifol arall ar Heol Dinbych y Pysgod, ger Glanpwllafon, nos Sul dwetha - y pedwerydd mewn 4 mis. Mae’r damweiniau’n digwydd yn yr un lle, bob tro, ac y mae cynlluniau i ail-wynebu yn 2021. Mae angen edrych ar gyflymder hefyd ac arwyddion clir ac y mae’r heddlu’n rhoi adroddiad at ei gilydd i CSC.

b) Reports from County Councillors

ClIr Catrin Miles Teifi Ward

- i. **SAFE ZONES:** As soon as the Fire-break period ended, 9th November, there were some in Cardigan who thought that was the end of the virus and took part in social activities that broke Covid rules. Only last month, I stated in my report: *“Covid-19 cases are under control locally but numbers have increased in neighboring authorities, so it’s still vital to keep to the rules.”*
Since then, increased positive cases has put this town in jeopardy, necessitating the closure of the Library, Nurseries, Coleg Ceredigion, Flying Start, Jig-So, 7 local schools for a 2-week

period (6 in North Pembrokeshire, temporarily). Shops and businesses have closed due to staff testing positive and the Fire Brigade has been put under pressure.

CCC had to make an immediate decision to revert to the Safe Zones system in Cardigan and have been congratulated by Public Health Wales for responding to the crisis so quickly and effectively. The High St and Pendre are closed 11am-4:30pm Monday to Saturday - a safety measure until such a time as the number of Covid cases drops. One important tweak to the system: CCC restored the section between Pendre corner and the Mwldan to 2-way traffic, enabling the town service to access the ICC without having to go down Quay Street, Middle Mwldan and Greenfield Square. For those who grumble at CCC, direct your anger at those who put us in this situation. Ceredigion was doing so well and now Cardigan has put us on the map for breaking the rules.

The CCC Consultation on Safe Zones welcomes responses until the 21st December 2020. You can access it on the CCC website (and also in an Easy to Read version) but those without internet access can telephone their views on 01545 570881.

- ii. SCHOOLS: 7 schools local to Cardigan are closed for 2 weeks until 7th December, due to the surge in Covid cases. By now, we know that there will be no GCSE, AS and A level exams in the summer of 2021 and measures are being developed to support schools to put alternative arrangements in place.
- iii. PARKING: CSC re-introduced parking charges today, with cashless machines. Until today, CSC was the only LA throughout Wales not charging. However, it was felt unfair to charge whilst Cardigan was back under Safe Zones so free parking will continue whilst the High Street/Pendre is restricted to traffic.
- iv. A487: Sunday night I heard of another serious accident on the Tenby Rd, down near Glanpwellafon/Pembrokeshire border, the 4th in as many months. They always come off the road at the same point and this stretch between the border and Ridgeway roundabout is down for surface treatment in 2021. Other factors, such as speeding and clear signage need looking at and a police report is expected soon.

Y Cyng Elaine Evans Ward Rhyd-y-fuwch

Mae ymholiad gan ddynes ynglŷn a chynhwysydd yn North Park wedi cael ei anfon at John Adams-Lewis, mae yn ei ward.

Cynhaliwyd cyfarfod brys ddydd Sul 22 Tachwedd oherwydd y pigyn diweddar o achosion Covid yn Aberteifi a oedd yn cynnwys Cyng Sir lleol a swyddogion CSC, fy mhryderon oedd:

Yr angen dybryd am ganolfan brofi yn Aberteifi;

Y sicrwydd sydd ei angen ar bobl i fynd am brawf, mae rhai yn teimlo cywilydd;

Yr angen i bobl bregus unig hunan-ynysu eto;

Goblygiadau iechyd meddwl a chorfforol – rwyf wedi gofyn i CSC gyhoedi datganiad i'r wasg ynglŷn a ymwybyddiaeth iechyd a iechyd meddwl;

Erbyn hyn mae yna ganolfan brofi ym maes parcio Pwll Nofio Aberteifi, mae'r ddolen hon wedi'i rhannu ar fy nghyfyngau cymdeithasol.

Mewn ymateb i'm cais sicrhaodd CSC bobl i beidio â bod â chywilydd i gael prawf yn eu datganiad i'r wasg.

Unwaith eto, ni chafwyd ymgynghoriad ar gau'r ffordd, mae'r dref mor dawel gyda chymaint o siopau ar gau, a oedd angen ei gweithredu?

Mae CSC wedi cytuno i ddarparu pas i bobl sydd angen casglu meddyginiaeth gan Boots a Wells os yw eu plant yn awtistig, mae angen rhoi enwau a chfeiriadau rhieni a phlant sydd eisiau pas i swyddogion yn CSC;

Rwy'n ceisio cael perswad ar CSC ailgyflwyno'r parcio am ddim tan y Flwyddyn Newydd; Rwy'n ceisio trwy alwadau ffôn cyson a diweddariadau cyfryngau cymdeithasol i helpu'r gymuned ym mhob ffordd y gallaf. Dyma amser ar gyfer caredigrwydd a chydymdeimlad i bawb.

Cllr Elaine Evans Rhyd-y-fuwch Ward

An enquiry from a lady regarding a container in North Park has been sent to John Adams-Lewis, as it is in his ward.

There was an emergency meeting held on Sunday 22 November due to the recent spike of Covid cases in Cardigan which involved local County Cllrs and CCC officers, my concerns were:

The urgent need for a testing centre in Cardigan;

The reassurance needed from CCC for people to go for a test, some are embarrassed;

The need for vulnerable lonely people to self-isolate again;

Mental and physical health implications – I have asked CCC to issue a wellness and mental health awareness press release;

There is now a testing centre in Cardigan Swimming Pool Carpark, this link has been shared on my social media.

CCC reassured people not to be embarrassed to get a test in their press release in response to my request;

Again, there was no consultation regarding the road closure, the town is so quiet with so many shops closed, was there a need for it to be implemented?

CCC have agreed to provide passes to people who need to collect medication from Boots and Wells if their children are autistic or disabled, names and addresses of parents and children wanting a pass need to be given to officers at CCC;

I am attempting to persuade CCC to reintroduce the free parking until the safe zone is in place;

I am attempting through constant phone calls and social media updates to help the community in every way I can. This is a time for kindness and sympathy for all.

Y Cyng John Adams-Lewis Ward Mwldan

Mae swyddog gorfodi lechyd yr Amgylchedd wedi cael gwybod am y cynhwysydd a roddir mewn gardd yn North Park.

Mae'n siomedig na soniwyd am gau'r ffordd yn y cyfarfod brys a gynhaliwyd oherwydd pigyn y Coronafirws, byddwn wedi gwrthwynebu'n gryf.

Cllr John Adams-Lewis Mwldan Ward

An enforcement officer for the Environmental Health has been informed about the container placed in the garden in North Park.

It's disappointing that the road closure was not mentioned in the emergency meeting held due to the Coronavirus spike, I would have strongly objected.

- c) **Adroddiad y Bachan Deche/Handyperson's Report**
Dim byd o bwys i'w gofnodi /Nothing of note to record.

10. Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf

Items for the next Agenda

Y siaradwr gwadd Mr Peter Williams i siarad am Rhyngrwyd o Pethau, a sut y gall hyn helpu trefi fel Aberteifi, a sut y gall Aberteifi adeiladu ar y gwaith arloesol a gyflanwyd yn barod.

Guest speaker Mr Peter Williams to speak about the Internet of Things and how this can help towns like Cardigan, and how Cardigan can build on the innovative work already accomplished.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.30yh

There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 7.30pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date